



Pigion Penallta

Cyfrol 8

Ionawr 2021

Cylchlythyr tymhorol am y bywyd gwyllt ym Mharc Penallta

Wrth i mi ysgrifennu hwn ddechrau mis Ionawr, mae'r ddaear y tu allan yn galed gyda rhew. Mae gwynt oer yn chwythu i mewn drwy ffenestr agored ac, yn y pellter, rwy'n gallu gweld mymryn o eira ar gopaon y bryniau. Rwy'n cael fy atgoffa o'r garol 'Ganol

Gaeaf Noethlwm' a'i disgrifiad o dir fel haearn, gwyntoedd cwynfanus ac eira diddiwedd, ond ni allaf helpu ond yn teimlo bod y gaeaf yn cael tipyn o sylw anffafriol.



Pen hadau moron gwyllt

Wrth edrych allan y ffenestr, mae'r haul wrthi'n torri drwy'r cymylau; mae ei ddisgleirdeb wedi'i orliwio mewn cyferbyniad â lliwiau gaeafol tawel y dirwedd. Mae cynhesrwydd ei belydrau yn mynd ar ôl y rhew wrth i'r haul ddringo'n araf uwch yn yr awyr. Gall amgylchynu ein hunain â natur fod yn brofiad dyrchafol ac, waeth beth fo'r tymor neu'r tywydd, mae rhywbeth yn y byd naturiol bob amser i weithredu fel pelydr bach o heulwen i doddi'r felan.

Gyda'u dail bellach wedi diflannu, mae'r coed yn sefyll fel sgerbydau yn dangos eu hesgyrn noeth i'r byd, silwetau yn erbyn yr awyr. Mae'n drawiadol sut mae pob math yn creu siâp gwahanol, ac mae'n bosibl adnabod gwahanol rywogaethau hyd yn oed o bellter. Onn, coed tal unionsyth gyda changhennau wedi'u gwasgaru'n rheolaidd, y mae eu pennau'n plygu i fyny tuag at yr awyr. Gwern, coed main, canolig, eu canghennau arlliw porffor eisoes yn llawn gyda gwyddau bach. Derw, llydan a nerthol gyda changhennau cryf, cnotiog a throellog, yn glynu'n daer at ddail gwywedig olaf yr hydref fel llinynnau o felfed ar gyrn carw. Bedw arian, tal a thenau, gyda changhennau'n gorffen mewn lluo o frigau yn rhaeadru a boncyffion yn disgleirio â rhisgl gwyn fel papur. Nid oes unrhyw goeden arall sy'n adlewyrchu'r tymor mor dda. Ond



Bedwen arian

mae'r fedwen yn fwy na choeden dlos yn unig! Mae'n rhywogaeth fentrus gan ei bod yn un o'r coed cyntaf i ymsefydlu mewn ardaloedd newydd ac mae'n gallu tyfu ar uchderau uwch ac mewn tymheredd oerach na llawer o rywogaethau eraill. Mae ei phren yn ysgafn ac yn gryf ac fe'i defnyddir wrth wneud dodrefn ac i wneud pren haenog. Mae'n llosgi'n dda a gall naddion tenau rhisgl fod yn danwydd ar gyfer cynnau tân. Am ganrifoedd, mae crefftwy'r o bob cwr o'r byd wedi ei ddefnyddio i wneud pob math o bethau - o ysgubellau i ganwau rhisgl bedw - ac yn y gwanwyn, gellir tapio'r sudd sy'n darparu diod adfywiol felys.

Weithiau, y pethau bach mewn bywyd sy'n dod â'r llawenydd mwyaf ac mae hynny'n sicr yn wir am y dryw. Nid aderyn lleiaf Prydain (mae'r anrhydedd honno'n perthyn i'r dryw melyn cribog), mae'r dryw yn un o'n rhywogaethau mwyaf cyffredin. Mae i'w gael ym mron pob cynefin ledled y wlad ond mae'n ffafrio coedwigoedd a gerddi, gan dreulio llawer o'i amser wedi'i guddio o'r golwg mewn isdyfiant trwchus, yn mynd ar wib, fel llygoden wrth iddo hela am bryfed bach. Yn ystod y gaeaf, mae'n haws i'w weld



Dryw

pan fydd llai o ddail i'w guddio. Mae ei faint bach a'i liw brown yn golygu nad yw'n sefyll allan o gwbl, nes iddo agor ei big i ganu. Yr hyn nad oes gan y dryw o ran ei faint, mae llais y dryw yn gwneud iawn am hynny, ac o'i gymharu â'i faint, mae'n uwch na cheiliog! Gellir clywed ei gân hawdd ei hadnabod wedi'i gwneud o frawddegau cerddorol byr cyson gyda chlecian yn debyg i ddryll peiriannol ger y diwedd drwy'r flwyddyn, ond yn

fwy felly yn y gwanwyn pan fydd y gwrywod yn bloeddio eu cân er mwyn amddiffyn eu tiriogaeth a denu cymar.

Yn ôl llên gwerin, cymerodd yr holl adar ran mewn gornest i weld pwy ddylai fod yn frenin. Penderfynwyd y byddai'r aderyn a hedfanodd yn uwch na'r gweddill yn cael yr anrhydedd, felly aethon nhw i gyd i'r awyr yn hedfan i fyny ac i fyny nes, un ar ôl y llall, fe wnaethon nhw flino a gorfod gleidio yn ôl i lawr i'r ddaear. O'r diwedd, yr eryr oedd yr unig aderyn ar ôl yn yr awyr ac yn syth ar ôl iddo flino, neidiodd y dryw bach, a oedd wedi cael reid ar gefn yr eryr heb i neb sylwi, a hedfan i fyny yn uwch na'r eryr yn canu ei gân wrth iddo fynd. Ers hynny, mae'r dryw wedi cael ei adnabod yn frenin yr adar, yn brawf y gall cryfder meddwl fod yn gryfach na chryfder y corff.

Felly, mae natur ganol gaeaf noethlwm hyd yn oed yn dangos i ni'r arwyddion bod y gwanwyn ar ei ffordd. Mae angen i ni agor ein llygaid (a'n clustiau) i weld.